# FFRAMWAITH PECYN CYMORTH BUSNES

## SIARTER DIOGELWCH MENYWOD

# CYNNWYS

Siarter Diogelwch Menywod Caerdydd - Cyflwyniad ........ 3
Pam fod angen Siarter Diogelwch Menywod ar Gaerdydd ........ 4
Dadansoddiad o ymrwymiadau'r Siarter ........ 5
Hyfforddiant ........ 7
Adnoddau ........ 8
Cwestiynau Cyffredin ........ 10

# SIARTER DIOGELWCH MENYWOD CAERDYDD - CYFLWYNIAD



Gan Carolyn Brownell, Cyd-gadeirydd Rhwydwaith Diogelwch Menywod Caerdydd

**Mae Caerdydd yn ddinas ddiogel, ond fel y rhan fwyaf o lefydd, mae ganddi broblemau o hyd. Ac yn anffodus, mae'r materion hyn yn effeithio ar y ffordd y mae menywod yn profi ein dinas bob dydd a nos.**

Credwn fod gan bob menyw yr hawl i fwynhau'r ddinas hon, waeth pa amser o'r dydd. Ac eto, mae cymaint o rwystrau o hyd i fenywod a merched sy'n byw, yn gweithio ac yn profi ein dinas. Ein cenhadaeth yw i gael gwared ar y rhwystrau hyn, ond ni allwn wneud hynny ar ein pennau ein hunain. Gyda'n gilydd gallwn gymryd camau cadarnhaol drwy ymrwymo i ddiogelwch menywod.

Mae FOR Cardiff yn benderfynol i wneud ein dinas yn lle mwy diogel i fenywod. Trwy weithio gyda busnesau cefnogol fel eich un chi, gallwn archwilio mentrau hanfodol fel y Siarter Diogelwch Menywod i helpu i gael effaith ar fywydau bob dydd menywod yn y gwaith a'r tu allan.

Dechreuodd y daith yn 2021, gyda lansiad 'Lleoedd Diogel' – partneriaeth rhwng FOR Cardiff a busnesau ledled y ddinas, i'w trawsnewid yn 'Lleoedd Diogel' – gan ymuno â rhwydwaith cymorth hygyrch, cenedlaethol, lle y gall unrhyw un sy'n teimlo'n ofnus neu mewn perygl gael lloches.

Plannodd y fenter hon yr hedyn ar gyfer twf sylweddol a mwy o ymwybyddiaeth - bellach mae dros 100 o fusnesau yng Nghaerdydd wedi dod yn rhan o 'Lleoedd Diogel'.

Ond nid dyma ddiwedd y daith. Lansiwyd Rhwydwaith Diogelwch Menywod yr un flwyddyn – ac ysbrydolodd hyn waith i ddeall beth sydd ei angen ar Gaerdydd, a sut y gellir ei gwneud yn ddinas fwy diogel i bawb.

Gan ddod ag arbenigwyr ynghyd o fusnesau a sefydliadau ar draws economi nos Caerdydd – gweithiodd y Rhwydwaith i arddangos lleisiau menywod a helpu i greu amgylchedd mwy diogel i'r rhai sydd allan yng nghanol y ddinas.

Nawr, rydyn ni wedi dod â busnesau ledled y ddinas at ei gilydd er mwyn darparu **Siarter Diogelwch Menywod Caerdydd** – y siarter 24/7 gyntaf yn y DU.

Pwrpas y pecyn cymorth hwn yw i helpu eich busnes i ddeall beth yw'r Siarter, sut y gallwch chi gael gafael ar hyfforddiant, a beth ydyn ni'n eisiau wrth fusnesau nawr, adeg ei lansio. Dim ond y dechrau yw hyn, a gobeithiwn y byddwch yn rhan o'r daith hon gyda ni.

# PAM FOD ANGEN SIARTER DIOGELWCH MENYWOD AR GAERDYDD?

**Y troseddau mwyaf cyffredin yng Nghaerdydd yw trais a throseddau rhywiol, gyda 12,158 o droseddau yn ystod 2021. Mae hyn 11% yn uwch na ffigur 2020 o 10,964 o droseddau. Mae angen i hyn newid.**

Dyna pam mae'r Siarter Diogelwch Menywod mor bwysig: bydd yn helpu i wneud Caerdydd yn ddinas lle mae pob menyw yn teimlo'n hyderus a bod croeso iddyn nhw ar unrhyw adeg o'r dydd.

Mae'r Siarter wedi'i chynllunio i'n helpu ni i gyd i gymryd camau ymarferol gyda'n gilydd, i wneud Caerdydd yn fwy diogel i fenywod ar unrhyw adeg o'r dydd. Dim ots beth yw eich maint, siâp neu waith, mae eich ymrwymiad yn bwysig. A thrwy ymrwymo i'r Siarter, rydych yn cefnogi nid yn unig y cyhoedd ond eich staff hefyd.

Bydd y Siarter Diogelwch Menywod yn eich cefnogi i hyfforddi eich staff a chefnogi'r cyhoedd i greu diwylliant o ddiffyg goddefgarwch pan mae'n dod i aflonyddu rhywiol mewn siopau, busnesau a mannau cyhoeddus ledled Caerdydd.

Gallwn ni i gyd wneud ein rhan i sicrhau bod Caerdydd yn fwy diogel i fenywod, ac rydyn ni'n gwybod na fydd hynny'n digwydd dros nos ond wrth ddechrau nawr, gallwn ni i gyd greu newid cadarnhaol yng Nghaerdydd drwy ymrwymo i ddiogelwch menywod.

Mae saith ymrwymiad wedi'u hamlinellu yn y pecyn cymorth hwn sy'n gweithio tuag at wella diogelwch menywod yng Nghaerdydd, dim ots beth, ble na phryd.

MAE

**97%**

O FENYWOD 18-24 OED WEDI PROFI RHYW FATH O AFLONYDDU YN GYHOEDDUS.

# DADANSODDIAD O YMRWYMIADAU'R SIARTER

Dyma ymrwymiadau'r Siarter y byddwn yn gofyn i bob aelod gadw atynt, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.

**1. Penodi Hyrwyddwr**
Aelod (neu aelodau) a enwir yn eich sefydliad a fydd yn hyrwyddo diogelwch menywod ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt.

Gall hyn fod yn unrhyw aelod o staff waeth beth fo'u hunaniaeth o ran rhywedd neu rôl. Rydym yn argymell bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi'n llawn i ymateb i achos a'i riportio, fel nad yw'r cyfrifoldeb yn gyfan gwbl ar un unigolyn.

**2. Cyfathrebu**
Dangoswch agwedd o ddiffyg goddefgarwch tuag at aflonyddu rhywiol trwy gyfathrebu'n gadarnhaol gyda'r cyhoedd a staff, ar-lein ac yn eich lleoliad.

Gall ymgyrchoedd allanol gynnwys; bathodynnau ar gyfer eich hyrwyddwr, arddangos sticer yn eich ffenestr a bod eich hyrwyddwr yn adrodd unrhyw newyddion yn ôl i FOR Cardiff er mwyn i ni ei rannu.

Gall ymgyrchoedd mewnol gynnwys; arddangos poster adnoddau yn eich ystafell staff sy'n cynnwys ffyrdd o riportio, enghreifftiau o arfer gorau a gwybodaeth am gyfreithlondeb ymddygiad. Caiff hyn ei ddarparu yn eich pecyn busnes a ellir ei lawrlwytho.

Gall hyrwyddwyr hefyd rannu a chasglu enghreifftiau o arfer gorau ymysg ei gilydd.

**3. Cefnogwch Eich Staff**
Crëwch lwybrau ar gyfer riportio, a sefydlwch ddiwylliant o ddiffyg goddefgarwch o gwmpas aflonyddu rhywiol yn eich gweithle.

**4. Cefnogwch y Cyhoedd**
Crëwch lwybrau ar gyfer riportio, a sefydlwch ddiwylliant o ddiffyg goddefgarwch o gwmpas aflonyddu rhywiol wrth ddefnyddio eich gwasanaeth neu ofod.

**5. Hyfforddiant: Ymateb**
Hyfforddwch staff i sicrhau bod pob menyw sy'n riportio achos yn cael ei chredu ac yn cael ei chyfeirio at y ffynonellau cymorth cywir.

**6. Hyfforddiant: Cofnodi**
Hyfforddwch staff i sicrhau bod pob achos yn cael ei gofnodi a darparwch gofrestr o'r holl staff sydd wedi'u hyfforddi.

**7. Dylunio ar gyfer Diogelwch**
Archwiliwch eich lleoliadau ac addaswch nhw i sicrhau bod menywod yn gadael eich lleoliad yn ddiogel.

Sicrhewch fod eich isgontractwyr hefyd wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o ymrwymiadau'r Siarter.

# YMRWYMO I'R SIARTER

Ar hyn o bryd, rydym yn dylunio'r hyfforddiant i fusnesau ddod yn aelod o'r Siarter, felly ein gofyniad nawr yw eich bod yn dod yn Gynghreiriad a chychwyn sgwrs gyda ni am ymrwymo i'r Siarter.

**Dod yn Gynghreiriad**
Wrth i ni drafod gofynion hyfforddi, rydym am i chi ddod yn Gynghreiriad. Mae hyn yn dangos i'ch staff a'ch cwsmeriaid eich bod wedi ymrwymo i ddiogelwch menywod, a'ch bod yn gweithio tuag at fod yn aelod Siarter llawn.

Mynegwch eich diddordeb ar ein gwefan yma a byddwn mewn cysylltiad gyda'r camau nesaf a'r canllawiau.

**Yn y cyfamser...**
Mae angen i'ch staff wybod bod y Siarter yn rhywbeth y mae eich busnes wedi ymrwymo iddi.

Hoffem ganolbwyntio ymdrechion ar godi ymwybyddiaeth o'r Siarter trwy arddangos posteri mewn ardaloedd busnes cymunedol, megis ystafelloedd staff a mannau hyfforddi, a darparu adnoddau sy'n amlinellu arfer gorau a gwybodaeth ar sut i ymateb i achosion a'u riportio.

**Cynghreiriad - Posteri ac Asedau**
Lawrlwythwch asedau ar gyfer eich busnes yma i ddangos eich bod yn gweithio tuag at fod yn aelod o'r Siarter.

Os hoffech fersiwn o'r pecyn hwn wedi ei argraffu, cysylltwch â info@forcardiff.com



# HYFFORDDIANT

Mae hyfforddiant penodol – i gefnogi eich ymrwymiad i'r Siarter – ar gael i'ch helpu chi a'ch staff i fod yn barod i adnabod ac ymateb i achosion o drais yn erbyn menywod.

**FOR Cardiff**
***Hyfforddiant Cymorth i Ferched Cymru:*** Mae Canolfan Hyfforddi Genedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi i fynd i'r afael â phob agwedd ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a'i atal. Mae Canolfan Hyfforddi Genedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol i adnabod ac ymateb i gam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o drais yn erbyn menywod, yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n gweithio mewn rolau arbenigol.

Hanner Diwrnod Wyneb yn Wyneb = £450
Diwrnod Cyfan Wyneb yn Wyneb = £900
Hanner Diwrnod Digidol = £375
Diwrnod Cyfan Digidol = £750
E-Ddysgu = £20 y person y cwrs

***Hyfforddiant Pwrpasol New Pathways:*** - Mae Hyfforddiant Pwrpasol - New Pathways yn darparu cyrsiau ar drais rhywiol, ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, diogelu ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl. I gael dyfynbris hyfforddi, e-bostiwch training@newpathways.org.uk

***Hyfforddiant Bregusrwydd:*** Rachel Loveridge Rachel.Loveridge@south-wales.police.uk



# ADNODDAU

Er y gall ein pecyn cymorth gynnig gwybodaeth am y Siarter i'ch busnes, mae adnoddau ar gael i ddarparu cyngor a gwybodaeth mwy penodol i chi a'ch staff.

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**
Mae'n darparu gwybodaeth, cyngor neu gefnogaeth gyfrinachol ynghylch cam-drin domestig, trais rhywiol, neu drais yn erbyn menywod.

Gall unrhyw un gysylltu mewn unrhyw iaith 24/7.
Ffôn: 08088010800.
Testun: 07860077333.
E-bost: info@livefearfreehelpline.wales

- Anogwch staff i rannu rhif y llinell gymorth a ffonio'r llinell gymorth yn uniongyrchol os oes angen gwybodaeth neu gyngor arnynt.
- Gwnewch y llinell gymorth yn weladwy – ei harddangos fel poster mewn ffenestri siopau, yng nghefn y busnes ar gyfer staff, ei ychwanegu at lofnodion e-bost ac ar yriannau a rennir gan y cwmni.

**Cymorth i Ferched Cymru**
***Pecyn Cymorth Gwylwyr*** - yn cynnwys cyngor a gwybodaeth benodol i gymdogion pryderus, gwirfoddolwyr a chyflogwyr ymroddedig, newyddiadurwyr, ac eraill i sicrhau eu bod yn gallu codi ymwybyddiaeth yn ddiogel a chyfeirio at gymorth. Pecyn Cymorth Gwylwyr COVID 19 : Cymorth i Ferched Cymru (welshwomensaid.org.uk)

**Cymorth i Ferched Caerdydd**
Ewch i cardiffwomensaid.org.uk

**StreetSafe**
Gall unrhyw un roi gwybod yn ddienw am fan cyhoeddus lle maent wedi teimlo, neu yn teimlo'n anniogel, oherwydd materion amgylcheddol, e.e. goleuadau stryd, adeiladau gwag, neu oherwydd rhai ymddygiadau, e.e. cael eu dilyn neu eu cam-drin yn eiriol. Nid yw hyn ar gyfer riportio troseddau neu achosion.

**Riportio trosedd ar-lein**
Os ydych wedi bod yn dyst i drosedd neu wedi dioddef trosedd, rhowch wybod i'r heddlu. Ymdrinnir â'r adroddiadau hyn gan yr ystafell reoli yn yr un modd â phe baech yn eu riportio dros y ffôn.



# SUT I RANNU'R SIARTER DIOGELWCH MENYWOD

Hoffem i chi siarad am eich ymrwymiad i'r Siarter, a'i rannu'n eang fel y gall busnesau eraill gymryd rhan.

Gallwch lawrlwytho'r holl asedau sy'n ymwneud â'r Siarter Diogelwch Menywod yma.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i forasafercardiff.com. Cysylltwch â ni ar info@forcardiff.com



# CWESTIYNAU CYFFREDIN

**A allwch chi ymuno â’r Siarter Diogelwch Menywod os nad ydych chi’n aelod o FOR Cardiff?**
Gallwch, mae’r Siarter Diogelwch Menywod yn agored i unrhyw gyflogwr yn y sir.

**Sut mae cyflawni statws Siarter?**
Ar ôl mynegi diddordeb a dod yn gyngheiriad – fel yr amlinellir yn y pecyn cymorth – gallwch ennill statws Siarter trwy ddarparu tystiolaeth sy’n dangos bod eich busnes wedi cyflawni’r amcanion allweddol o fewn 2 fis o gofrestru.

Cysylltwch â ni i drafod y broses.

**Hoffwn gael pecyn busnes wedi’i argraffu - sut mae cael gafael ar un?**
Yn anffodus, ni fyddwn yn cynnig fersiwn argraffedig. Cysylltwch â ni os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch trwy info@forcardiff.com

**Pa mor aml bydd fy musnesau yn cael eu gwirio i sicrhau fy mod yn parhau yn unol ag ymrwymiadau’r Siarter?**
Byddwn yn gwirio’r dystiolaeth a ddarperir gennych er mwyn i chi ennill statws Siarter. Bydd ein tîm Ymgysylltu Busnes wedyn yn gweithio gyda chi i ateb unrhyw ymholiadau a allai godi ynghylch y Siarter a’ch ymrwymiadau.



# CWESTIYNAU CYFFREDIN

**Beth fydd yn digwydd os caiff achos ei ddatgelu i aelodau o staff?**
Os y caiff achos posibl ei ddatgelu i aelod o'ch staff megis aflonyddu, neu bryder ynghylch diogelwch, mae'n hanfodol dilyn protocol tosturiol sydd wedi'i ddiffinio'n dda. Mae diogelwch a lles pob unigolyn o'r pwys mwyaf. Rydym yn argymell y camau canlynol:

***1. Gwrando a Chefnogi***
Pan fydd rhywun yn datgelu achos, gwrandewch yn astud a heb farnu. Cynigiwch eich cefnogaeth a'ch empathi, gan sicrhau'r person taw eu llesiant yw'r flaenoriaeth.

***2. Credu a Pharchu***
Dangoswch barch at deimladau a phrofiad yr unigolyn. Credwch yr hyn maen nhw'n ei rannu a dilyswch eu hemosiynau.

***3. Preifatrwydd***
Parchwch gyfrinachedd y datgeliad. Sicrhewch fod preifatrwydd y person yn cael ei gynnal a rhannwch wybodaeth ar sail "angen gwybod" yn unig.

***4. Dogfennau***
Os yw'r unigolyn yn gyfforddus, cofnodwch fanylion y datgeliad. Bydd hyn o gymorth mewn unrhyw gamau gweithredu ac ymchwiliadau fydd yn dilyn.

***5. Sicrhau ynghylch Opsiynau Riportio***
Gwnewch y person yn ymwybodol o opsiynau riportio, boed o fewn y sefydliad neu'n allanol. Rhowch wybod iddynt fod ganddynt y dewis i gymryd camau pellach os y dymunant.

***6. Dim dial***
Pwysleisiwch na fydd dial yn erbyn yr unigolyn am gyflwyno datgeliad. Ailadroddwch eich ymrwymiad i greu amgylchedd diogel a chefnogol.

***7. Gweithredu a Datrys***
Yn dibynnu ar natur y achos, cymerwch gamau priodol. Gall hyn olygu adrodd i awdurdodau uwch, cynnwys partïon perthnasol, a mynd i'r afael â'r sefyllfa gyda'r brys angenrheidiol.

***8. Hyfforddiant a Chymorth***
Sicrhewch fod eich staff wedi'u hyfforddi i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath yn sensitif. Darparwch adnoddau a hyfforddiant sy'n rhoi'r sgiliau iddynt ymateb yn briodol.

***9. Adborth a Gwelliant***
Ar ôl mynd i'r afael â'r sefyllfa, ceisiwch adborth gan y sawl a ddatgelodd yr achos. Defnyddiwch yr adborth hwn i wella eich gweithdrefnau ymateb o hyd.

Ask inside for details • Safe place • Safe Place • Ask inside for details • Safe place

CAERDYDD
DIOGEL
AM BYTH